# Matrics Sgorio
# Darparu Porth LoRaWAN
# Fframwaith Cyflenwr Sengl
**Cyfeirnod:** ANW - LGS - SSF - 31.07.2025

## Methodoleg Gwerthuso
Cynhelir gwerthusiad tendr ar ôl derbyn tendr. Rhaid i'r panel gwerthuso sicrhau tegwch, cydraddoldeb a didueddrwydd yn ystod y broses.

Rhaid i bob aelod o'r panel gwerthuso ddatgan unrhyw wrthdaro buddiannau (sydd wedyn yn cael eu hasesu o ran risg a'u hystyried cyn i'r panel gwerthuso weld unrhyw gyflwyniadau). Os bernir bod aelod o'r panel wedi datgan buddiant sy'n golygu na allant sgorio unigolyn, byddant yn cael eu tynnu o'r broses gyfan a bydd swyddog arall priodol yn cael ei benodi i'r panel.

Bydd pob aelod o'r Panel yn sgorio pob ymgeisydd a phob cwestiwn yn unigol ac yna bydd y sgôr cyfartalog yn cael ei ddefnyddio i roi sgôr terfynol ar gyfer pob cwestiwn. Os bydd aelod o'r panel yn sgorio'n uchel iawn neu'n eithriadol o isel o'i gymharu ag aelodau eraill y panel, gofynnir am eglurhad gan aelodau unigol y panel ynghylch dealltwriaeth o'r cwestiwn ac ateb fel rhan o'r gwerthusiad sgorio. Yna gellir newid y sgôr i adlewyrchu dealltwriaeth cyn iddo gael ei gynnwys yn y sgôr gyfartalog derfynol.

Ni ellir newid unrhyw sgoriau unwaith y bydd y sgôr gyfartalog derfynol wedi'i chyfrifo.

## Ceisiadau Clwm
Diffiniad o gais cysylltiedig:

Cynnig clwm yw pan fydd sgôr dau neu fwy o ymgeiswyr yn hafal i un lle degol. Os bydd cais clwm (fel y'i diffinnir uchod), bydd yr ymgeisydd sydd wedi sgorio'n uwch yn adran ansawdd y tendr yn cael y cytundeb. Os bydd sgor ansawdd yn gyfartal gwneir penderfyniad i ddyfarnu i'r ymgeisydd sydd wedi cyflwyno'r pris isaf gan yr ymgeiswyr hynny y mae eu sgôr ansawdd yn gyfartal. Os bydd y pris a gyflwynir o fewn yr un band pris â'r elfen sgorio, caiff y pris ei ddyfarnu i'r pris isaf o fewn y band hwnnw.

## Gwober
Bydd sgorau Ansawydd, Cyllideb ac Gwerth Cymdeithasol yn cael eu cyfuno i roi sgôr cyffredinol. Bydd y tendr â'r sgôr uchaf yn ennill y tendr.

Uchelgais Gogledd Cymru
Ambition North Wales

Pwysau Tendr

**Ansawdd:** 20%

- Amser arweiniol pyrth - 20%

**Cyllideb:** 80%- **ni fydd hyn yn cael ei sgorio gan y panel (gweler isod)**

- Band 1 - 25%
- Band 2 - 25%
- Band 3 - 25%
- Band 4 - 25%

Ni fydd y panel yn gwybod y pris nes bod yr holl gyflwyniadau wedi'u sgorio a'u cymedroli i sicrhau tegwch trwy gydol y broses.

Bydd pob bandio yn cael ei sgorio yn erbyn yr un bandio ar gyfer unrhyw ymgeiswyr eraill a bydd y pris bandio isaf (fesul bandio) yn derbyn y sgôr uchaf h.y. y 25% llawn. Bydd pob sgôr cyflenwr arall yn cael ei werthuso trwy rannu'r pris isaf â phris cymharu y cyflenwr a lluosi'r gyfran honno â'r ganran pris a ddyrannwyd.

Enghraifft:

| | Ymgeisydd A | Ymgeisydd B | Ymgeisydd C | Ymgeisydd D |
|---|---|---|---|---|
| Pris | £750 | £500 | £900 | £550 |
| Sgôr | 17% | 25% | 14% | 23% |

Ni chaniateir ystyried unrhyw dendrau gyda phrisiau anghyflawn.

**Methodoleg Sgorio**

Bydd y panel yn sgorio pob adran neu ymateb. Bydd yr holl gwestiynau'n cael eu gwerthuso yn unol â'r fethodoleg isod a bydd y sgôr a roddir yn adlewyrchu lefel yr hyder a roddwyd gan yr ymateb(ion) sy'n cael eu hystyried. Mae'r dehongliadau generig o'r meini prawf ar gyfer y gwahanol lefelau o hyder wedi'u crynhoi yn y tabl canlynol:

**Tabl 1** - Methodoleg Sgorio

| Sgôr | Perfformiad | Beirniadaeth |
|---|---|---|
| 5 | Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn rhagori ar ofynion. | Arbennig |
| 4 | Mae'r wybodaeth a ddarparwyd yn cwrdd â'r gofynion ar gyfer darparu'r gwasanaeth. | Da |
| 3 | Mae'r wybodaeth a ddarparwyd ond mae pryderon y gellid fod gan y cwmni ddiffygion sylfaenol i gyflawni'r safon ofynnol ar gyfer darparu'r gwasanaeth. | Derbyniol |
| 2 | Gwybodaeth fyr a ddarparwyd ond mae pryderon bod gan y cwmni ddiffyg gwybodaeth neu ddarparu ar gyfer y gwasanaeth. | Amheus |
| 1 | Mae'r wybodaeth yn anghyflawn. | Gwael |
| 0 | Nid yw'n darparu unrhyw wybodaeth / mae'r wybodaeth yn hollol annigonol. | Methu |